# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Medi 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Lynne Neagle (Torfaen):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hybu datblygiad gwasanaeth Bwcabus yng Nghymoedd y De. (WAQ56486)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn nodi fy ymrwymiad i gefnogi gwasanaeth trafnidiaeth arloesol ac mae'r gwasanaeth Bwcabus yng ngorllewin Cymru yn enghraifft dda o hyn.

Darparwyd £11.3 miliwn gennyf yn 2010/11 er mwyn i awdurdodau lleol gefnogi gwasanaethau bws drwy'r Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol, ac mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu ar sut mae'n defnyddio ei ddyraniad i ddiwallu anghenion lleol orau. Mae nifer o awdurdodau lleol sydd eisoes yn defnyddio arian y Grant i gefnogi gwasanaethau Galw'r Gyrrwr, sy'n ymateb i'r galw, sy'n debyg i Bwcabus.

Rwyf hefyd yn ymwybodol o gynnig gan weithredwr i redeg gwasanaeth bws masnachol Galw'r Gyrrwr yng Nghymoedd y De, ac mae fy swyddogion wedi bod yn cynnal trafodaethau â'r gweithredwr a'r awdurdodau lleol perthnasol ar gymhwysedd y gwasanaeth ar gyfer y cynllun tocyn mantais bws.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog nodi sawl aelod staff a gyflogir i weinyddu'r canolfannau Technium, gan gynnwys ffigurau ar gyfer y rheini yng Nghaerdydd, yn swyddfeydd rhanbarthol y Cynulliad ac yn y canolfannau Technium eu hunain. (WAQ56487)

***Rhoddwyd ateb ar 12 Hydref 2010***

**Ar 15 Medi 2010:**

| **Technium** | **Staff Llywodraeth Cynulliad Cymru** |
|---|---|
| Technium Sir Benfro* | 0 |
| Technium Peirianneg Perfformiad | 0 |
| Technium Digidol | 1 |
| Technium Abertawe 1 a 2 | 7.5** |
| Technium Technolegau Cynaliadwy | 1 |
| Technium Sony | 1 |
| Technium Springboard* | 0 |
| @Cymru | 4 |
| Technium Aberystwyth | 2 |
| Technium Optic* | 0 |
| Technium Cast | 0 |

* Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu swydd sy'n gyfwerth ag amser llawn yn rhannol yn y lleoliadau hyn drwy arian cydgyfeirio'r UE
** Mae'r ffigur hwn yn cynnwys tîm Gweinyddol Canolog Technium o chwe aelod o staff

Dim ond at staff Llywodraeth Cynulliad Cymru y mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw manylion am staff a gyflogir yn y canolfannau hyn nad ydynt yn staff Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o bractisau meddygon teulu fydd yn cynnig y gwasanaeth Fy Iechyd ar-lein erbyn diwedd 2010 a faint y disgwylir fydd yn ei gyflwyno erbyn diwedd 2011 ac a wnaiff y Gweinidog fynegi'r ffigurau hyn fel canran o'r cyfanswm o bractisau meddygon teulu yng Nghymru. (WAQ56440)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Early adopter GP practices will begin to roll out My Health Online at the end of this year, with the majority of the 500 practices in Wales being able to offer the service by the end of 2011.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yng nghyswllt cael mynediad at Feddygon Teulu, a yw'r Gweinidog wedi edrych ar y cynllun gwirfoddol sydd ar waith yn Seland Newydd sy'n gwobrwyo graddedigion meddygol sy'n adleoli i ardaloedd gwledig sy'n anodd eu staffio. (WAQ56478)

***Rhoddwyd ateb ar 20 Medi 2010***

Bydd y grŵp Adolygu Meddygon Iau yn ystyried cynllun sy'n debyg i'r un a weithredir yn Seland Newydd dros y misoedd nesaf.

**Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch sawl cais a gafwyd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru i gyllido'r cyffur Lapatinib, ynghyd â sawl cais am gyllid sydd wedi'i gymeradwyo. (WAQ56479)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

This information is not centrally held.

**Lynne Neagle (Torfaen):** Sut mae'r Gweinidog yn mynd ati i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn prosesu ceisiadau am gyllid ar gyfer cyffuriau dan drefniadau cyllido arbennig mewn modd cyflym a thryloyw. (WAQ56480)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Mae gan Fyrddau Iechyd eu polisïau eu hunain ar waith ar gyfer ymdrin â cheisiadau o'r fath ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gwaith bellach yn mynd rhagddo yn y GIG i ddatblygu polisi model a dogfennaeth safonol Cymru gyfan yn cynnwys systemau ar gyfer pennu eithriadoldeb, ar gyfer cynnwys cleifion mewn penderfyniadau ac egluro penderfyniadau i gleifion, ac ar gyfer adolygiadau mewnol o benderfyniadau. Disgwylir i'r polisi drafft ddod i law erbyn diwedd mis Hydref.
Yn ogystal, mae fy swyddogion hefyd yn arfarnu'r opsiynau ar gyfer sefydlu Panel Apeliadau Annibynnol Cymru gyfan i ystyried ceisiadau i ariannu Triniaeth Cleifion Unigol lle y dihysbyddwyd prosesau'r Bwrdd Iechyd ond mae'r ymgeisydd o'r farn i'r penderfyniad anghywir gael ei wneud.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl cardiolegydd ymgynghorol sy'n gwasanaethu Ysbyty Bronglais ar hyn o bryd o fewn adran gardioleg yr ysbyty ei hun a pha bryd y cafodd y cardiolegyddion hyn eu penodi. (WAQ56481)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl gwely sydd yn (a) Uned Cardioleg Bronglais, (b) Uned Cardioleg Ysbyty Tywysog Phillip, (c) Uned Cardioleg Ysbyty Gorllewin Cymru a (d) Uned Cardioleg Llwynhelyg. (WAQ56482)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Sawl cardiolegydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn (a) Ysbyty Tywysog Phillip, (b) Ysbyty Gorllewin Cymru, (c) Ysbyty Llwynhelyg a pha bryd y cawsant eu penodi. (WAQ56483)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa bryd y caiff ail gardiolegydd ei benodi i wasanaethu yn Ysbyty Bronglais a pha sicrwydd a roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai mwy nag un cardiolegydd yn cael ei benodi yn 2005-06. (WAQ56484)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Mater i Fwrdd Iechyd Hywel Dda yw cynllunio, ariannu a sicrhau mynediad i wasanaethau cardiaidd o ansawdd uchel i'w boblogaeth, yn cynnwys pobl yn ardal Aberystwyth.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau Adroddiad McKinsey i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. (WAQ56485)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

There is no McKinsey Report. The work carried out by McKinsey is helping to inform the development of a 5-Year Service, Workforce and Financial Strategic Framework by the NHS in Wales. The overall framework is a set of documents, processes and behaviours which will guide transformation and integration. These include the seven Health Board delivery plans which will continue to be developed and refined year on year with partners.